# Canllawiau Derbyn Grant Cronfa Rhwydweithiau Natur

## Cynnwys


Canllawiau Derbyn Grant Cronfa Rhwydweithiau Natur ........ 1
- Cyflwyniad ........ 3
  - Gair i gall ........ **Error! Bookmark not defined.**
  - Llinell Amser y Prosiect ........ 4
- Sut y byddwn yn gweithio gyda chi ........ 5
  - Dogfennau Pwysig ........ 5
  - Talu'ch Grant ........ 5
  - Dyddiad y daw’r Grant i ben ........ 6
  - Cydnabod eich Grant Cronfa Rhwydweithiau Natur ........ 6
  - Caffael: Ymgynghorwyr, Contractwyr a Chyflenwyr ........ 7
  - Recriwtio Staff ........ 9
  - TAW ........ 10
  - Cofnod Ffotograffig ........ 11
  - Cynllun Grantiau Cymunedol ........ 12
- Ffurflenni Ar-lein a Mewngofnodi i’r Porth ........ 12
- Ffurflen Caniatâd i Ddechrau a Thalu ........ 12
- Ein Diweddaru gynnydd ar eich Prosiect ........ 14
  - Newidiadau Prosiect ........ 14
  - Newidiadau Cyllideb ........ 15
- Adroddiadau Cynnydd a Ffurflenni Cais am Daliad ........ 15
- Adroddiad Cwblhau a Ffurflen Gais am Daliad Terfynol ........ 17
  - Prosiectau sy'n methu â gwario’r gyllideb ........ 18
- Dyddiad Cwblhau'r Prosiect a Hyd y Contract Grant ........ 19
- Atodiad A: Perchnogaeth Eiddo ........ 19
  - Perchnogaeth ........ 19
  - Tir ac adeiladau - ar gyfer gwaith cyfalaf ........ 20
  - Tir neu adeiladau sydd ym mherchnogaeth trydydd parti ........ 20
  - Caffael tir neu adeiladau ........ 20
  - Eitemau treftadaeth ........ 20
  - Allbynnau Digidol ........ 21
- Atodiad B: Tir mewn Perchnogaeth Trydydd Parti ........ 21

Prosiectau Naturiol a Thirwedd....................................................................................21
Gwaith cyfalaf i dreftadaeth adeiledig - ee adeiladau, gerddi addurnol .........................22
Grantiau Cymunedol..................................................................................................22
Costau Cyfreithiol ......................................................................................................22
Atodiad C: Rhestr Termau ............................................................................................23

# Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar dderbyn *Grant* Cronfa Rhwydweithiau Natur, edrychwn ymlaen at eich helpu i gyflawni *Prosiect* llwyddiannus. Arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yw'r cyllid y byddwch yn ei dderbyn, ac o'r herwydd mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau ei fod yn cael ei reoli mewn ffordd atebol. Mae hyn yn golygu bod angen i chi ddilyn nifer o brosesau trwy gydol oes eich *Prosiect*. Rydyn ni'n ceisio gwneud y rhain yn gymesur yn unol â lefel y *Grant* rydych chi'n ei dderbyn.

Rydym yn deall efallai mai hwn fydd y tro cyntaf i chi dderbyn cyllid gennym ni ac efallai eich bod yn ansicr sut i ofyn am eich *Grant* a'n hysbysu am eich cynnydd. Bydd y ddogfen hon yn egluro beth i'w wneud ac yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Mae'n nodi sut y byddwch yn derbyn eich *Grant* Cronfa Rhwydweithiau Natur o £50,000 i £500,000. Mae hefyd yn esbonio'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl gennych chi cyn, yn ystod ac ar ôl ei dderbyn.

Rydyn ni'n hoffi gweithio mewn ffordd gydweithredol, felly cadwch mewn cysylltiad â ni os oes angen ein cefnogaeth arnoch chi. Eich pwynt cyswllt cyntaf â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw'r person a enwir yn y Llythyr Hysbysiad *Grant*. Disgwyliwn ichi ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau am wybodaeth a thrafod unrhyw newidiadau sylweddol i'ch *Prosiect* gyda ni. Rhaid i chi fynd i'r afael ag unrhyw faterion rydyn ni'n eu nodi trwy gydol eich *Prosiect*.

Hoffem ymweld â phob un o'r sefydliadau rydym yn eu hariannu neu gwrdd â nhw, ond yn anffodus, nid yw hyn bob amser yn bosibl, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau cyfnewidiol Covid-19. Fodd bynnag, gwahoddwch ni i ddigwyddiadau ac agoriadau *Prosiect* allweddol a byddwn yn anelu at anfon cynrychiolydd lle bo hynny'n bosibl.

Byddwn yn cynnal gwiriadau trwy gydol eich *Prosiect* i gadarnhau eich bod yn cyflawni'r Canlyniadau a nodwyd yn eich Cais a'r *Dibenion Cymeradwy* a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad *Grant*.

Mae'ch Contract *Grant* gyda ni, y Cyllidwr, yn cynnwys y canlynol:

- Llythyr;
- Telerau *Grant* Safonol;
- Unrhyw Amodau *Grant* Ychwanegol;
- Ffurflen *Caniatâd i Ddechrau* a Thaliad wedi'i llofnodi.

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r Contract *Grant*, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ad-daliad o'ch *Grant* neu'r cyfan ohono.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein harferion safonol ond nodwch y gallwn ddewis amrywio ein prosesau yn dibynnu ar amgylchiadau penodol eich *Prosiect*.

Rydym wedi creu Rhestr Termau ddefnyddiol sydd i'w gweld yn Atodiad H y ddogfen hon. Os ydych chi'n ansicr o unrhyw dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon, cyfeiriwch at yr adran hon.

## Gair i gall

- Peidiwch â dechrau eich *Prosiect* cyn i ni roi caniatâd i chi;
- Ystyriwch werthuso'ch *Prosiect* o'r dechrau;
- Cofiwch gydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru i'ch *Prosiect*
- Cadwch olwg ar eich gwariant ar y *Prosiect*;
- Cadwch olwg ar amserlen eich *Prosiect*;
- Cadwch yr holl anfonebau a derbynebau yn drefnus;
- Cofiwch eich *Dibenion Cymeradwy*;
- Adolygwch a dysgwch o'r hyn rydych chi'n ei wneud;
- Cofiwch hawlio'ch *Grant*;
- Sicrhewch eich bod yn siarad â ni am unrhyw faterion;
- Cadwch dystiolaeth y *Prosiect*, er enghraifft o lansiadau, gweithdai a hyrwyddo;
- Yn anad dim arall, mwynhewch eich *Prosiect*!

## Llinell Amser y *Prosiect*

- Dyfarniad *Grant*
- Cyflwyno *Caniatâd i Ddechrau* erbyn 31 Rhagfyr 2021
- Cyflwyno gweithgaredd eich *Prosiect*
- Cwblhewch eich *Prosiect* a chyflwynwch eich *Adroddiad Cwblhau* erbyn 31 Mawrth 2023
- Hyd y telerau cyswllt hyd at 10 mlynedd (gweler adran 9)

# Sut y byddwn yn gweithio gyda chi

Mae'r adran hon yn esbonio'r canllawiau yr ydym yn disgwyl ichi eu dilyn wrth gyflawni eich *Prosiect*. Os ydych chi'n ansicr o unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd, cysylltwch â ni.

## Dogfennau Pwysig

Rydym yn argymell eich bod yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau canlynol cyn cychwyn ar eich *Prosiect*:

- Contract *Grant*;
- Canllawiau Ymgeisio Cronfa Rhwydweithiau Natur ar ein gwefan;
- Gwerthuso: Canllawiau Arferion Da.

Mae arweiniad ychwanegol ar gael yn y Canllawiau Arferion Da o'r wefan.
Rydym hefyd yn argymell bod pawb sy'n ymwneud yn agos â chyflawni'ch *Prosiect* yn gyfarwydd â'r Cais a gyflwynwyd gennych i ni. Yn benodol y Canlyniadau a'r *Dibenion Cymeradwy* y gwnaethoch ymrwymo i'w cyflawni.

## Taliadau eich *Grant*

Ein nod yw rhyddhau taliad cyntaf eich *Grant* cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich ffurflen wedi'i chwblhau a'r holl ddogfennau ategol gorfodol. Gwneir taliad i'r cyfrif banc a nodwyd yn eich ffurflen *Caniatâd i Ddechrau* a Chais am Daliad.

Ar gyfer *Grant*iau o dan £100,000, telir eich *Grant* mewn tri rhandaliad yn seiliedig ar y canrannau canlynol:

- **50%**: Ar ôl i ni roi *Caniatâd i Ddechrau* i chi.
- **40%**: Unwaith y gallwch dystiolaethu bod 50% o gyfanswm costau'r *Prosiect* wedi'i wario.
- **10%**: Unwaith y bydd eich *Prosiect* wedi'i gwblhau.

Am *Grant*iau **mwy na £100,000**, byddwn yn talu'ch *Grant* mewn ôl-daliadau unwaith y byddwch yn gallu darparu anfonebau neu dderbynebau sy'n dangos eich gwariant *Prosiect*. Byddwn yn cytuno ar amserlen dalu gyda chi yn *Caniatâd i Ddechrau* a bydd taliadau'n cael eu gwneud wrth i'r *Prosiect* fynd yn ei flaen, ar yr amod eich bod yn darparu tystiolaeth o wariant.

Bydd angen i chi ddefnyddio'r *Ffurflen Cais am Daliad* (gweler adran 8) i ofyn am daliad o'ch *Grant*. Yn nodweddiadol, rydym yn disgwyl i *Adroddiad Cynnydd* (gweler adran 7) gael ei gyflwyno gyda'r *Ffurflen Cais am Daliad* er mwyn derbyn taliad o'ch *Grant* gan mai dim ond ar ôl bod yn fodlon â chynnydd eich *Prosiect* y byddwn yn rhyddhau taliadau.

Byddwn yn talu cyfran o'r costau yr ydych wedi'u hysgwyddo yn seiliedig ar y Ganran Taliad a nodwyd yn eich Llythyr Hysbysiad *Grant*. Felly, os ydych chi'n darparu anfonebau gwerth cyfanswm o £50,000 a bod eich Canran Taliad yn 85% bydd eich taliad *Grant* yn £42,500.

Ar gyfer pob *Grant*, rydym yn dal y 10% olaf o'ch *Grant* nes bod y *Prosiect* wedi'i gwblhau. Byddwn ond yn talu'r 10% llawn os:

- gwariwyd cyfanswm y costau y cytunwyd arnynt a
- rydych wedi cwblhau a chyflwyno'ch *Adroddiad Cwblhau* a'ch *Ffurflen Cais am Daliad* Terfynol, gan gynnwys tystio i gyfanswm costau'r *Prosiect*

Os ydych chi'n gwario llai na'ch costau cytunedig a bod eich *Prosiect* wedi'i gwblhau o dan y gyllideb bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw *Grant* na chafodd ei wario arnom. Bydd hyn yn cael ei gyfrif yn seiliedig ar eich costau *Prosiect* cyffredinol a'r Ganran *Grant* a nodwyd yn eich Llythyr Hysbysiad *Grant*. Gweler adran '*Adroddiad Cwblhau* a chais taliad terfynol' y ddogfen hon i gael mwy o fanylion ar sut mae taliad terfynol *Prosiect*au o dan y gyllideb yn cael ei gyfrif.

## Dyddiad y daw'r *Grant* i ben

Mae gan bob *Prosiect* sy'n derbyn cyllid trwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur Ddyddiad y daw'r *Grant* i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae'n rhaid i chi gwblhau eich *Prosiect* a chyflwyno'ch *Adroddiad Cwblhau* a'ch *Ffurflen Cais am Daliad* Terfynol erbyn y dyddiad hwn.

Ni allwn ganiatáu estyniadau i'r amserlen hon. Os yw'ch *Prosiect* mewn perygl difrifol o beidio â chwblhau, gallwn gau eich *Prosiect* yn gynnar a gofyn am ad-daliad o'ch *Grant* cyfan neu ran ohono felly trafodwch gyda ni cyn gynted ag y bo modd.

## Cydnabod eich *Grant* Cronfa Rhwydweithiau Natur

Rydym yn gwerthfawrogi y byddwch yn awyddus iawn i rannu y newyddion da am eich grant, ond peidiwch os y gwelwch yn dda a gyrru datganiadau at y cyfryngau am y nawdd hwn neu bostio negeseuson ar gyfryngau cymdeithasol am nawr. Mi fydd timau cyfathrebu y Gronfa Treftdaeth a Llywodraeth Cymru yn cysytllu gyda chi yn fuan ym Mis Medi i drafod hyn. Diolch am eich cydweithrediad gyda hyn.

Mae cydnabod eich *Grant* yn un o amodau'r Contract *Grant*. Mae'n rhaid i chi gydnabod Llywodraeth Cymru ym mhob deunydd printiedig a digidol rydych chi'n ei gynhyrchu, er enghraifft, ar ymgynghoriad cyhoeddus neu wybodaeth neu ddeunyddiau codi arian. Mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys y logos ar bob dyluniad neu gynllun rydych chi'n ei gynhyrchu, ar bob adroddiad neu arolwg arbenigol, ac ar bob dogfen dendro neu hysbyseb swydd sy'n cael ei hariannu gan eich *Grant*.

Rydym yn eich annog i ddatblygu cynigion neu hyrwyddiadau arloesol a chreadigol sydd wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth o'n cyllid. Efallai y byddwn yn gofyn ichi gymryd rhan mewn ymgyrchoedd yn y wasg neu ddigwyddiadau gan gydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru i'ch sefydliad a'ch *Prosiect*.

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'n canllawiau cydnabod, rydym yn cadw'r hawl i roi'r gorau i wneud taliadau ac i ofyn am ad-daliad o'ch *Grant* neu'r cyfan ohono.

Os oes angen unrhyw help arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chydnabod eich *Grant*, cysylltwch â ni.

## Caffael: Ymgynghorwyr, Contractwyr a Chyflenwyr

Ym mhob *Prosiect*, pryd bynnag y byddwch chi'n defnyddio'ch *Grant* i brynu nwyddau, gweithiau neu wasanaethau, byddwn yn gofyn i chi roi manylion y caffael i ni (sef y broses prynu, tendro a dethol). Os ydych eisoes wedi prynu nwyddau, gweithiau neu wasanaethau ar gyfer eich *Prosiect*, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch hynny. Ni allwn dalu'ch *Grant* os nad ydych wedi dilyn y weithdrefn ganlynol.

Dylech bob amser ystyried cydraddoldeb triniaeth, tryloywder, cyd-gydnabod a chymesuredd wrth gaffael unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau.

Os ydych chi'n *Grantî* Corff Cyhoeddus neu os yw'ch *Prosiect* yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Caffael Cyhoeddus, yna mae'n rhaid i chi ddilyn y ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i'r gweithdrefnau i recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth berthnasol. Dylai'r ffioedd ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr neu weithwyr proffesiynol eraill rydych chi'n eu recriwtio yn ystod y *Prosiect* fod yn unol â chanllawiau proffesiynol a dylent fod yn seiliedig ar fanyleb ysgrifenedig glir. Os oes cysylltiad rhwng unrhyw un o'r contractwyr, cyflenwyr neu ymgynghorwyr yr ydych am eu penodi, er enghraifft ffrindiau agos neu berthnasau, neu os oes unrhyw gyswllt ariannol fel perchnogaeth y cyflenwyr hyn bydd angen i chi gael ein caniatâd ysgrifenedig gennym ni yn gyntaf.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i gymryd cyngor proffesiynol neu gyfreithiol.

**O dan £10,000**
Os ydych chi'n prynu nwyddau, gweithiau neu wasanaethau am lai na £10,000 nid oes angen i chi dendro'n agored am y rhain na chael sawl dyfynbris. Byddwn yn dal i ddisgwyl ichi ddangos gwerth cyffredinol am arian.

**Rhwng £10,000 a £50,000**

Mae'n rhaid i chi gael o leiaf dri dyfynbris cystadleuol ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth £10,000 neu fwy (ac eithrio TAW) yr ydym wedi cytuno i'w hariannu.

Nid oes angen i chi benodi'r contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfynbris isaf o reidrwydd. Wrth benderfynu pwy i benodi ar gyfer eich *Prosiect*, dylech edrych ar y gwerth cyffredinol am arian y mae'r dyfynbris yn ei gyflwyno a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd.

**Mwy na £50,000**

Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol. Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau a gawsoch, ynghyd â'ch penderfyniad i'w dderbyn.

Nid oes angen i chi benodi'r contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfynbris isaf o reidrwydd. Wrth benderfynu pwy i benodi ar gyfer eich *Prosiect*, dylech edrych ar y gwerth cyffredinol am arian y mae'r dyfynbris yn ei gyflwyno a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd.

Mewn rhai amgylchiadau, nid oes angen i chi ddilyn gweithdrefn dendro gystadleuol a dim ond un sefydliad y gallwch ei wahodd i dendro. Dyma lle:

- mae cyfanswm pris y contract yn llai na £10,000,
- mae cytundeb fframwaith ar waith ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau a dendrwyd yn gystadleuol o'r blaen, ac mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau'n uniongyrchol berthnasol i gwmpas y gwaith *Prosiect* sydd i'w wneud,
- mae contract *Prosiect* ar waith, sydd wedi'i dendro'n gystadleuol o'r blaen, ac mae'n rhesymegol ei ymestyn i gwmpasu gwaith *Prosiect* ychwanegol. Yn yr achos hwn mae'n rhaid i chi gadarnhau:
- yn achos gwaith cyfalaf gellir cymhwyso prisiau mwyafrif yr elfennau gwaith, gan gynnwys rhagofynion, gorbenion ac elw yn uniongyrchol o'r contract presennol i'r gwaith newydd,
- mae'r gwaith newydd yn llai o ran graddfa, ac mae o fath tebyg i'r prif waith y contract,
- ni fydd y contractwr yn hawlio aflonyddwch neu gost estyn i'r prif gontract os cyflwynir y gwaith newydd,
- mae'r contract presennol yn cyfyngu ar waith sy'n cael ei wneud gan eraill,
- mae'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sy'n ofynnol yn unigryw fel y'u nodir mewn manyleb gofynion heb frand ac nid yw'n bosibl eu cael o ffynonellau eraill trwy dendr cystadleuol,

- gallwch ddangos eich bod wedi ceisio tendro'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau yn agored ac yn gystadleuol ond heb dderbyn diddordeb digonol. Cyflwynwyd yr unig dendr a dderbyniwyd gan ddarparwr gwasanaeth a gredai ei fod yn gwneud hynny mewn cystadleuaeth ag eraill,

- gwaith brys lle gellir dangos y byddai'r amser a gymerir i gael tendrau yn peryglu'r *Prosiect* ac yn ychwanegu'n sylweddol at gostau yn y pen draw,

- nid yw'r cwmni sy'n darparu'r tendr sengl wedi'i gysylltu, naill ai trwy berchnogaeth neu drwy gysylltiadau teuluol, ag uwch gynrychiolwyr y Grantî.

Byddwn hefyd yn gofyn ichi ystyried gwerthoedd cymdeithasol yn eich caffaeliad, gan gynnwys:

- Cadwyni cyflenwi amrywiol
- Gwell cyflogadwyedd a sgiliau
- Cynhwysiant, iechyd meddwl a llesiant
- Cynaliadwyedd amgylcheddol
- Cadwyni cyflenwi diogel

Dylech sicrhau bod unrhyw gontractwr / cyflenwr / ymgynghorydd a allai gyfrannu at greu *Allbynnau Digidol* yn ymwybodol o'n gofyniad i brosiectau rannu'r rhain o dan drwydded Creative Commons Attribution 4.0 International neu gyfwerth, a sicrhau bod gennych gytundeb i'r gwaith sy'n cael ei rannu yn y ffordd yma. Lle nad yw hyn yn bosibl, mae’n rhaid i chi geisio cytundeb ysgrifenedig i wneud trefniadau amgen gyda ni, er enghraifft i ddefnyddio *Trwydded Agored* amgen, cyn cyhoeddi unrhyw gontract gwaith.

## Recriwtio Staff

Mae’n rhaid hysbysebu pob swydd staff gyda'r eithriadau canlynol:

- Os oes gennych aelod o staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres eich bod yn symud i'r swydd a grëwyd gan eich *Prosiect*;

- Os oes gennych aelod o staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres y mae ei oriau yn ymestyn fel y gallant weithio ar y *Prosiect*. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost eu horiau ychwanegol a dreulir ar y *Prosiect* a bydd angen i chi ddweud wrthym am y rôl y byddant yn ei chyflawni;

Efallai y byddwn yn gofyn am weld tystiolaeth o'r weithdrefn recriwtio a ddilynwyd gennych felly cadwch y cofnodion hyn yn ddiogel.

Os ydych chi'n symud aelod presennol o staff i swydd a grëwyd gan y *Prosiect*, yna gallwn naill ai dalu am gost yr aelod staff hwn, neu am gost ôl-lenwi ei swydd, pa bynnag gost sy'n

llai (lle mae gweithiwr wedi'i aseinio i swydd newydd ac mae ei swydd yn cael ei llenwi dros dro gan weithiwr arall).

Os ydych chi am benodi unrhyw aelodau newydd o staff ar eich *Prosiect* sydd â chysylltiad ag unrhyw aelodau staff yn eich sefydliad, er enghraifft, unrhyw ffrindiau agos, perthnasau, neu gyn-aelodau staff, bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym ni yn gyntaf.

Dylai'r holl gyflogau fod yn seiliedig ar ganllawiau'r sector neu swyddi tebyg mewn mannau eraill.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gyfradd Cyflog Byw (a Chyflog Byw Llundain lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer holl staff y *Prosiect*.

# TAW

Ni allwn dalu costau TAW y gallwch eu hadennill, felly eich cyfrifoldeb chi yw ceisio cyngor priodol.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich *Prosiect*, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau lle rydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

## Tanwariant TAW:

Os ydych chi'n gwario llai ar TAW nag yr ydych wedi'i amlinellu yn adran Costau *Prosiect* eich Cais, gallwch, gyda'n caniatâd, drosglwyddo'r tanwariant i bennawd cost arall os dangosir angen clir. Bydd angen i chi ddangos sut y bydd y newidiadau hyn yn eich helpu i gyflawni'ch *Prosiect* i gyflawni eich *Dibenion Cymeradwy*.

## Enghraifft Waith A:

Rydych wedi cynnwys cyllideb ar gyfer TAW yn erbyn y pennawd costau Ffioedd Proffesiynol yn eich Cais. Ar ôl mynd trwy broses dendro i benodi ymgynghorydd, nid yw'r person rydych chi'n ei benodi wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac felly nid oes angen y gyllideb ar gyfer TAW ar Ffioedd Proffesiynol mwyach.

Yn ystod y broses dendro i benodi contractwr i gyflawni'r gwaith cadwraeth fe welwch fod y tendrau a ddychwelwyd yn uwch nag yr oeddech wedi eich cyllidebu. Gellid trosglwyddo'r tanwariant TAW ar Ffioedd Proffesiynol, gyda'n caniatâd, i'r pennawd costau Atgyweirio a Chadwraeth i ariannu'r diffyg.

Cyfeiriwch at adran 'Diweddaru ni ar eich *Prosiect*' o'r ddogfen hon i gael mwy o wybodaeth am gostau symud rhwng penawdau.

## Gor-wariant TAW:

Pan fydd cost TAW yn fwy na'r swm yr ydych wedi'i amlinellu yn adran Costau *Prosiect* eich Cais byddem yn disgwyl ichi ddod o hyd i'r costau ychwanegol o rywle arall (er enghraifft eich cronfeydd wrth gefn eich hun neu ffynhonnell ariannu arall) fel trosglwyddo arian o bennawd cost arall i'w dalu gallai unrhyw orwariant TAW effeithio o bosibl ar gyflawni eich *Prosiect* a'r *Dibenion Cymeradwy*. Mewn rhai amgylchiadau efallai y byddwn yn caniatáu ar gyfer defnyddio'ch arian wrth gefn i fynd i'r afael â gorwariant TAW, rhaid i chi gysylltu â ni i drafod hyn.

# Cofnod Ffotograffig

Disgwyliwn ichi gymryd ffotograffau trwy gydol eich *Prosiect* yn dangos eich cynnydd y dylech ei gyflwyno gyda'ch *Adroddiad Cynnydd* (lle bo hynny'n berthnasol). Bydd angen i chi ddarparu cofnod ffotograffig o'ch *Prosiect* gyda'ch *Adroddiad Cwblhau* a'ch *Ffurflen Cais am Daliad* Terfynol sy'n cynnwys o leiaf bum delwedd ddigidol cydraniad uchel mewn fformat electronig sy'n dangos gwahanol agweddau ar eich *Prosiect*.

Dylai'r delweddau ddangos eich *Prosiect* ar waith a'i ganlyniad. Bydd angen i chi ddarparu sampl o ddelweddau sy'n dangos eich *Prosiect* cyn, yn ystod ac ar ôl iddo gael ei orffen. Wrth gwblhau eich *Adroddiad Cynnydd* a'ch *Adroddiad Cwblhau* a'ch *Ffurflen Cais am Daliad* Terfynol gallwch roi gwybod i ni a oes deunydd o'ch *Prosiect* ar gael ar y rhyngrwyd a ble y gellir dod o hyd iddo.

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch delweddau mewn deunydd cyhoeddusrwydd. Rydych chi'n rhoi'r hawl i ni ddefnyddio'r rhai rydych chi'n eu darparu i ni ar unrhyw adeg, gan gynnwys eu newid. Mae'n rhaid i chi gael yr holl ganiatadau sy'n ofynnol i chi a ninnau eu defnyddio cyn i chi eu defnyddio neu eu hanfon atom. Dylai'r delweddau hyn, ynghyd ag Allbynnau Digidol eraill o'ch *Prosiect*, hefyd gael eu rhannu â Thrwydded Agored (Creative Commons Attribution 4.0 International). Os nad chi yw deiliad yr hawliau, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych gytundeb i rannu'r delweddau hyn o dan y Drwydded Agored benodol hon.

Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn casglu caniatâd ysgrifenedig priodol gan unrhyw un sy'n ymddangos yn y delweddau hyn y gellir eu hailddefnyddio mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a deunyddiau hyrwyddo, ac y gellir eu rhannu ar-lein o dan y Drwydded Agored benodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae delweddau'n cynnwys pobl ifanc neu oedolion agored i niwed a lle mae'n rhaid ceisio caniatâd penodol ymlaen llaw. Os oes angen unrhyw arweiniad arnoch ar hyn, siaradwch â ni.

Os nad yw'ch delweddau'n addas i'w rhannu o dan Drwydded Agored, bydd angen rhoi trefniadau eraill ar waith. Siaradwch â ni cyn gynted â phosibl.

## Cynllun Grantiau Cymunedol

Fel rhan o'ch Prosiect, efallai eich bod wedi gofyn inni gyfrannu tuag at bot o arian wedi'i glustnodi y gallwch ei ddefnyddio i ariannu grwpiau / sefydliadau eraill (yr ydym yn eu galw'n Grantïon Cymunedol) i gyflawni Prosiectau bach arwahanol (Grantiau Cymunedol). Bydd y Grantiau Cymunedol hyn yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich Prosiect. Rhaid i unrhyw Grantiau fel hyn ddangos gwerth da am arian, a dylai budd y cyhoedd orbwyso unrhyw enillion preifat. Byddwch yn rheoli'r pot cyllido, yn datblygu proses ymgeisio gyda phanel penderfyniadau ac yn monitro cynnydd. Mae'n rhaid i chi hefyd gyhoeddi'r Cynllun Grant Cymunedol, felly mae'n hysbys ac yn agored i bawb.

Gall y Grantiau hyn gynnwys gweithgareddau ar a / neu waith cyfalaf i dir ym mherchnogaeth trydydd parti (gweler Atodiad B).

I gael mwy o wybodaeth am gyflwyno Cynllun Grant Cymunedol a Chwestiynau Cyffredin ewch i'n gwefan.

# Ffurflenni Ar-lein a Mewngofnodi Porth

Bydd angen i chi lenwi nifer o ffurflenni trwy gydol eich *Prosiect*. Mae pob ffurflen yn gysylltiedig â thaliad *Grant* penodol a rhaid cyflwyno *Ffurflen Cais am Daliad* gyda'ch *Adroddiad Cynnydd* / *Adroddiad Cwblhau* er mwyn derbyn taliad nesaf eich *Grant*. Bydd pob ffurflen yn cael ei chyflwyno trwy ein gwasanaeth *Grant* ar-lein newydd. Mae hwn yn wasanaeth gwahanol i'r lle gwnaethoch gwblhau a chyflwyno'ch Cais, a bydd cyfarwyddiadau i gael mynediad i'r gwasanaeth *Grant* yn cael eu hanfon ar wahân. Gan fod y gwasanaeth *Grant* yma'n newydd, cysylltwch â ni os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau wrth gyrchu'r ffurflenni *Prosiect*.

# Ffurflen *Caniatâd i Ddechrau* a Thalu

Fel rheol, rydym yn disgwyl ichi gyflwyno'ch ffurflen *Caniatâd i Ddechrau* cyn pen tri mis o ddyddiad eich Llythyr Hysbysiad *Grant*. Os bydd oedi sylweddol ac na ddaeth i law erbyn 31 Rhagfyr 2021 efallai y byddwn yn penderfynu tynnu cynnig eich *Grant* yn ôl.
Cyn y gallwn roi Caniatâd i chi Ddechrau a rhyddhau'ch *Grant* bydd angen i chi gyflawni'r tasgau canlynol (os yw'n berthnasol):

- Sicrhewch yr holl arian partneriaeth (os nodir hynny yn eich Cais);

- Sicrhewch ganiatâd statudol, er enghraifft caniatâd cynllunio;
- Sicrhewch unrhyw drwyddedau angenrheidiol, er enghraifft trwydded madfall neu ystlumod;
- Sicrhewch berchnogaeth ar eiddo rhydd-ddaliol neu brydlesol i fodloni ein gofynion - gweler Atodiad A.

I gychwyn eich *Prosiect* a derbyn eich taliad *Grant* cyntaf, mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen *Caniatâd i Ddechrau* a Chais am Daliad ar-lein.

Mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gydag o leiaf dau lofnod yn yr adran Manylion Cyfrif Banc a llofnod yn yr adran Datganiad. Trwy lofnodi'r Datganiad, rydych chi'n cadarnhau bod eich sefydliad yn derbyn eich *Grant* ac yn cytuno i gydymffurfio â'r Contract *Grant*. Dylech gadw copi wedi'i lofnodi ar gyfer eich cofnodion.

## Dogfennau Ategol Angenrheidiol

Mae'n bwysig bod dogfennau a gyflwynwyd yn ddarllenadwy ac yn cael eu labelu gyda theitl sy'n crynhoi'r *Prosiect*. Wrth gyflwyno anfonebau, dylid cyfuno'r rhain mewn un ffeil a'u nodi yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr hawliad. Yn ddelfrydol, dylai'r sganiau fod mewn un lliw (du a gwyn neu raddfa lwyd) gan y bydd y rhain yn ffeiliau llai ac yn caniatáu ichi atodi mwy.

Dylai'r holl ddogfennau fod ar ffurf PDF, ac eithrio taenlenni a ddylai fod yn eu fformat gwreiddiol.

**Dogfennau gorfodol**

- Copi o ddatganiad banc diweddar, slip talu neu siec;
- Cynllun monitro sy'n briodol ar gyfer y safle a'r *Prosiect* i alluogi gwerthuso'r *Prosiect* yn erbyn canlyniadau penodol;

**Dogfen orfodol (os yw'n berthnasol i'ch *Prosiect*)**

- Prawf o gyllid partneriaeth;
- Cynllun codi arian;
- Prawf dogfennol o berchnogaeth eiddo gan gynnwys er enghraifft copïau cyfoes o gofrestr teitl y Gofrestrfa Tir (gyda'r cynllun), prydlesi a thystiolaeth o unrhyw forgeisi presennol;
- Prawf o unrhyw ganiatadau neu drwyddedau statudol angenrheidiol;
- Cynllun *Prosiect* wedi'i ddiweddaru (os oes newidiadau sylweddol ers y Cais);

- Rhagolwg llif arian *Prosiect* (ar gyfer *Prosiect*au sy'n ymgymryd â gwaith cyfalaf).

Ar ôl i ni gymeradwyo'ch cais, byddwn yn eich hysbysu a byddwn yn awdurdodi taliad cyntaf eich *Grant*. Yna gallwch chi ddechrau gweithio ar eich *Prosiect*. Ni ddylech ddechrau ar unrhyw waith ar eich *Prosiect* nes bod gennych ein caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny. Os gwnewch hynny mae ar eich risg eich hun.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw daliadau *Grant* i chi nes bod eich ffurflen *Caniatâd i Ddechrau* a Chais am Daliad wedi'i chymeradwyo. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gyda'r ffurflen hon i'n helpu ni i fonitro cynnydd a pherfformiad eich *Prosiect*.

# Ein diweddaru ar gynnydd eich *Prosiect*

Ar ôl i ni gadarnhau bod gennych Ganiatâd i Ddechrau nid oes angen i chi gyflwyno unrhyw ffurflenni pellach nes eich bod yn barod i hawlio ail randaliad eich *Grant*.

Fodd bynnag, mae’n rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl ynghylch unrhyw broblemau neu faterion arwyddocaol (er enghraifft materion a allai arwain at newidiadau mewn costau, oedi difrifol, neu fethu â chyflawni'r Dibenion a'r Canlyniadau Cymeradwy) sy'n codi yn ystod eich *Prosiect* fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol. Gadewch inni wybod ymlaen llaw am unrhyw ddigwyddiadau a'n diweddaru ar unrhyw lwyddiannau a straeon newyddion da.

## Newidiadau *Prosiect*

Ni allwch newid *Dibenion Cymeradwy* eich *Prosiect* heb ein cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw. Os ydych chi am i ni ystyried unrhyw newidiadau i'ch *Dibenion Cymeradwy*, mae’n rhaid i chi anfon manylion ysgrifenedig atom am y rhesymau dros y cais ac egluro sut y bydd yn effeithio ar:

- ansawdd a Chanlyniadau eich *Prosiect*;
- cost eich *Prosiect*;
- yr amser sydd ei angen arnoch i gwblhau eich *Prosiect*;
- hyfywedd eich *Prosiect* yn y dyfodol.

Yna gallwn ailasesu'r *Prosiect* neu gymryd unrhyw gamau eraill yr ydym yn eu hystyried yn angenrheidiol. Efallai y byddwn yn rhoi caniatâd ar gyfer y newid dim ond os ydych chi'n cytuno i gadw at delerau ac amodau ychwanegol.

Mae’n rhaid i unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt gyda ni fod yn ysgrifenedig a dylid eu nodi hefyd yn eich *Adroddiad Cynnydd* a / neu'ch *Adroddiad Cwblhau* a'ch *Ffurflen Cais am Daliad* Terfynol.

## Newidiadau yn y gyllideb

Mae eich Llythyr Hysbysiad *Grant* yn cynnwys costau'r *Prosiect* y cytunwyd arnynt fel rhan o'ch *Grant*. Dylid rhoi gwybod am yr holl arian a wariwyd ar y *Prosiect* yn erbyn y penawdau costau hyn.

Os oes angen i chi wneud mân newidiadau a symud arian rhwng y penawdau costau hyn er mwyn cyflawni eich *Dibenion Cymeradwy* gallwch adrodd ar hyn yn eich *Adroddiad Cynnydd*. Mae’n rhaid i chi ddangos sut y gwnaeth y newidiadau hyn eich helpu i gyflawni eich *Prosiect*.

Mae’n rhaid i chi gysylltu â ni ymlaen llaw os ydych chi am gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r penawdau costau hyn ac ar gyfer unrhyw wariant mawr ar eich arian wrth gefn. Sylwch fod yn rhaid i bob newid fod o fewn y terfynau cyfalaf / refeniw a bennir gan Lywodraeth Cymru yn y canllaw ymgeisio. Dylai oddeutu 90% o gyfanswm costau'r *Prosiect* fod yn gyfalaf. Mae hyd at 10% o gyllid refeniw ar gael i gynorthwyo i gyflawni'r *Prosiect*.

Os ydych chi'n gwario llai na'ch costau cytunedig a bod eich *Prosiect* wedi'i gwblhau o dan y gyllideb, byddwn yn addasu'ch taliad terfynol yn unol â hynny ac efallai y bydd angen i chi ddychwelyd rhywfaint o'ch *Grant* atom (gweler adran '*Adroddiad Cwblhau* a Chais am Daliad Terfynol' y ddogfen hon am fanylion am sut mae hyn yn cael ei gyfrif).

Os bydd cyfanswm cost y *Prosiect* yn cynyddu yn ystod oes y *Prosiect*, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cynyddu eich *Grant*. Yn yr achos hwn bydd yn rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bellach.

# Adroddiadau Cynnydd a Ffurflenni Cais am Daliad

Ar gyfer *Grant*iau o dan £100,000, dylech gyflwyno *Adroddiad Cynnydd* gyda'ch *Ffurflen Cais am Daliad* pan fyddwch wedi gwario'r 50% cyntaf o'ch *Grant*. Bydd hyn yn caniatáu ichi ofyn am ail daliad eich *Grant* (40%).

Ar gyfer *Grant*iau dros £100,000, dylech gyflwyno ffurflen Adrodd Cynnydd a *Ffurflen Cais am Daliad* yn rheolaidd, fel arfer bob 3 mis. Efallai y bydd eich Rheolwr Buddsoddi yn

cytuno ar gyfnodau gwahanol gyda chi yn eich cyfarfod cychwynnol. Bydd hyn yn caniatáu ichi ddatgan eich gwariant hyd yn hyn a gofyn am daliad mewn ôl-ddyledion.

Byddwn yn monitro cynnydd eich *Prosiect* i gadarnhau ei fod yn cyflawni'r Canlyniadau a nodwyd yn eich Cais a'r *Dibenion Cymeradwy* a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad *Grant*. Rhwng cyflwyno'ch Adroddiadau Cynnydd, mae'n bwysig eich bod yn ein hysbysu am y cynnydd o ran cyrraedd cerrig milltir allweddol, er enghraifft penodi contractwyr neu staff, neu faterion sy'n codi fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol.

## Dogfennau Ategol Angenrheidiol - *Adroddiad Cynnydd*

Mae'n bwysig bod dogfennau a gyflwynwyd yn ddarllenadwy ac yn cael eu labelu'n glir gyda theitl sy'n crynhoi'r cynnwys. Wrth gyflwyno anfonebau, dylid cyfuno'r rhain mewn un ffeil a'u nodi yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr hawliad. Yn ddelfrydol, dylai'r sganiau fod mewn un lliw (du a gwyn neu raddfa lwyd) gan y bydd y rhain yn ffeiliau llai ac yn caniatáu ichi atodi mwy.

Dylai'r holl ddogfennau fod ar ffurf PDF, ac eithrio taenlenni a ddylai fod yn eu fformat gwreiddiol.

**Dogfennau gorfodol**

- Ffotograffau yn dangos cynnydd eich *Prosiect*;
- Cofnod o weithgareddau neu ddigwyddiadau rydych chi wedi'u trefnu;

**Dogfen orfodol (os yw'n berthnasol i'ch *Prosiect*)**

- Dewis / penodi swydd;
- Adroddiadau caffael.

## Dogfennau Ategol Angenrheidiol - *Ffurflen Cais am Daliad*

**Dogfennau gorfodol**

- Anfonebau *Prosiect* a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd;

**Dogfen orfodol (os yw'n berthnasol i'ch *Prosiect*)**

- Tabl costau am symiau llai na £250.

# *Adroddiad Cwblhau* a Ffurflen Gais am Daliad Terfynol

Unwaith y bydd eich *Prosiect* wedi'i gwblhau mae'n rhaid i chi gyflwyno'r *Adroddiad Cwblhau* a'r *Ffurflen Cais am Daliad* Terfynol. Bydd y ffurflen hon yn caniatáu ichi hawlio taliad terfynol eich *Grant* (hyd at 10%). Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn cyn gynted ag y gallwch gasglu'r holl wybodaeth at ei gilydd a thra bo'r *Prosiect* yn dal yn ffres yn eich meddwl.

Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen hon erbyn 31 Mawrth 2023. Os na dderbyniwn yr adroddiad o fewn yr amserlen hon, gallwn ddal eich taliad olaf yn ôl neu ofyn am rhywfaint o ad-daliad o'ch *Grant* neu'r cyfan ohono.

Trwy gyflawn, rydym yn golygu:

- mae eich *Prosiect* wedi gorffen, ac rydych wedi cyflawni eich *Dibenion Cymeradwy*;
- rydych wedi dilyn ein canllaw cydnabod y Gronfa Rhwydweithiau Natur trwy gydol y *Prosiect*
- bod gennych Dystysgrif Cwblhau Ymarferol neu gyfwerth (ar gyfer *Prosiect*au sydd wedi ymgymryd â gwaith cyfalaf);
- gallwch gyflenwi ffotograffau digidol o safon uchel o'r *Prosiect* a thystiolaeth o gydnabod ein cyllid;
- rydych wedi rhestru Allbynnau Digidol y *Prosiect* ac wedi darparu cyfeiriad (URL) y wefan neu'r gwefannau lle gellir eu cyrchu.

## Dogfennau Ategol Angenrheidiol

Mae'n bwysig bod dogfennau a gyflwynwyd yn ddarllenadwy a chyda theitl sy'n crynhoi'r cynnwys. Wrth gyflwyno anfonebau, dylid cyfuno'r rhain mewn un ffeil a'u nodi yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr hawliad. Yn ddelfrydol, dylai'r sganiau fod mewn un lliw (du a gwyn neu raddfa lwyd) gan y bydd y rhain yn ffeiliau llai ac yn caniatáu ichi atodi mwy.

Dylai'r holl ddogfennau fod ar ffurf PDF, ac eithrio taenlenni a ddylai fod yn eu fformat gwreiddiol.

**Dogfennau gorfodol**

- Anfonebau *Prosiect* a dderbynnir yn ystod y cyfnod adrodd;

- Cofnod ffotograffig o'ch *Prosiect*;

**Dogfen orfodol (os yw'n berthnasol i'ch *Prosiect*)**

- Tabl costau am symiau llai na £250;
- Cofnod o'r *Grant*iau Cymunedol a ddyfarnwyd;
- Tystysgrif Cwblhau Ymarferol (ar gyfer *Prosiect*au sydd wedi ymgymryd â gwaith cyfalaf);
- Rhestr o Allbynnau Digidol gyda chyfeiriad gwefan (URL) neu'r gwefannau y gellir eu cyrchu.

Sylwch na fyddwn yn gwneud eich taliad olaf nes ein bod wedi derbyn ac adolygu'r holl wybodaeth ofynnol.

Ar ôl i chi wneud eich cais *Grant* terfynol, ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau pellach am daliadau gennych chi. Felly dylech gytuno â'ch cyfrifon terfynol â'ch contractwyr a'ch cyflenwyr cyn i chi wneud cais am y taliad *Grant* terfynol.

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi ar gyfnodau ar ôl i'r *Prosiect* gael ei gwblhau gan gynnwys trwy ein Arolygon Cwsmeriaid.

## *Prosiect*au sy'n Cwblhau gyda thanwariant yn y Gyllideb

Os ydych chi'n gwario llai na'ch costau cytunedig a bod eich *Prosiect* wedi'i gwblhau gya thanwariant bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw *Grant* na chafodd ei wario. Os yw'r tanwariant yn llai na 10% o'ch *Grant* byddwn yn addasu taliad terfynol eich *Grant* yn unol â hynny. Os yw'r tanwariant yn fwy na 10% o'ch *Grant* bydd angen i chi ddychwelyd y *Grant* heb ei wario atom trwy siec neu drosglwyddiad BACS (mae manylion banc ar gael ar gais). Bydd eich taliad olaf yn cael ei gyfrif yn seiliedig ar eich costau *Prosiect* cyffredinol a'r Ganran *Grant* a nodwyd yn eich Llythyr Hysbysiad *Grant*.

Os bydd eich *Prosiect* yn cwblhau gyda thanwariant yn y gyllideb, mae'n rhaid i chi gadw'r terfynau cyllideb a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y canllaw ymgeisio. Dylai oddeutu 90% o gyfanswm costau'r *Prosiect* fod yn gyfalaf. Mae hyd at 10% o gyllid refeniw ar gael i gynorthwyo i gyflawni'r *Prosiect*.

## Enghraifft B:

Cyfanswm costau'r *Prosiect* yw £38,000, mae'ch sefydliad yn cyfrannu £8,000 o'r cronfeydd wrth gefn a'ch *Grant* yn £30,000. Canran y *Grant* felly yw 79% (*Grant* wedi'i rannu â chyfanswm costau'r *Prosiect*).

O'ch *Grant*, rhaid dyrannu o leiaf 90% neu £27,000 i'ch cyllideb Gyfalaf, a hyd at 10% neu £3,000 i gostau Refeniw.

Os bydd eich *Prosiect* yn cwblhau o dan y gyllideb byddwn yn addasu eich taliad terfynol yn unol â hynny ac efallai y bydd angen i chi ddychwelyd rhan o'ch *Grant* atom yn seiliedig ar Ganran y *Grant*. Er enghraifft, os yw eich *Prosiect* yn £3,000 o dan y gyllideb a chyfanswm eich gwariant yw £35,000, yna yn seiliedig ar Ganran y *Grant* o 79% byddai eich *Grant* yn cael ei addasu i £27,650. Felly, byddai eich taliad terfynol yn cael ei addasu o £3,000 i £650.

Costau cyfalaf y *Grant* fyddai £24,885 a chostau refeniw fyddai £ 2,765.

# Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect* a Hyd y Contract *Grant*

Dyddiad Cwblhau *Prosiect* ffurfiol yw dyddiad y llythyr y byddwn yn ei anfon atoch ar ddiwedd eich *Prosiect* yn rhoi gwybod ichi ein bod wedi derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol i gofnodi bod eich *Prosiect* wedi'i gwblhau.

Mae eich Llythyr Hysbysiad *Grant* yn nodi hyd y bydd y Contract *Grant* yn berthnasol i'ch *Prosiect* pan fydd yn rhaid i chi gynnal eich ymrwymiadau *Prosiect* parhaus. Bydd y rhain yn cychwyn unwaith y byddwn wedi llofnodi eich ffurflen *Caniatâd i Ddechrau* a gallant bara am nifer o flynyddoedd ar ôl i'ch *Prosiect* gwblhau, yn dibynnu ar natur eich *Prosiect*, fel a ganlyn:

- **Gweithgaredd** (er enghraifft arddangosfa a / neu ddigwyddiad heb unrhyw allbynnau digidol): mae'r contract *Grant* yn dod i ben ar Ddyddiad Cwblhau'r *Prosiect*;
- **Cyfalaf** (er enghraifft gwaith adeiladu neu adfer newydd): ddeng mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*
- **Digidol** (er enghraifft creu gwefan): ddeng mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*
- **Caffael** (er enghraifft prynu tir neu adeilad): ddeng mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*

Bydd oedi cyn cyflwyno'ch *Adroddiad Cwblhau* a'ch *Ffurflen Cais am Daliad* Terfynol yn ymestyn hyd y Contract *Grant*.

# Atodiad A: Perchnogaeth Eiddo

## Perchnogaeth

Disgwyliwn ichi fod yn berchen ar unrhyw Eiddo (tir, adeiladau, eitemau treftadaeth neu Eiddo deallusol) yr ydych yn gwario'ch *Grant* arno. Os na fyddwch yn cwrdd â'n gofynion perchnogaeth, bydd angen i chi wella'ch hawliau.

## Tir ac adeiladau - ar gyfer gwaith cyfalaf

Mae’n rhaid i chi naill ai fod yn berchen ar y rhydd-ddaliad neu gael prydles sy'n cwrdd â'r gofynion canlynol:

- Sefydliad dielw: Rhaid i'ch prydles fod â deng mlynedd ar ôl arni wedi'r Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*.
- Perchennog Preifat: Rhaid i'ch prydles fod â deng mlynedd ar ôl arni wedi'r Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*.
- Nid ydym yn derbyn prydlesi gyda chymalau terfynu (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i un neu fwy o bartïon i'r brydles ddod â'r brydles i ben mewn rhai amgylchiadau).
- Nid ydym yn derbyn prydlesi gyda fforffedu ar gymalau ansolfedd (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i'r landlord ddod â'r brydles i ben os bydd y tenant yn mynd yn fethdalwr).
- Rhaid i chi allu gwerthu, isosod y cyfan neu ran a morgeisi eich prydles ond os byddwn yn dyfarnu *Grant* i chi, rhaid i chi gael eich caniatâd yn gyntaf i wneud unrhyw un o'r rhain.

## Tir neu adeiladau sydd ym mherchnogaeth trydydd parti

- Tir / adeiladau sydd ym mherchnogaeth trydydd parti: os yw trydydd parti yn berchen ar y tir (a all gynnwys partner *Prosiect*) byddwn naill ai'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog arwyddo'ch Contract *Grant* yn uniongyrchol gyda ni neu ei gwneud yn ofynnol i chi wneud cytundeb cyfreithiol rwymol gyda’r perchennog. Gweler Atodiad B.

## Caffael tir neu adeiladau

Os yw'ch *Prosiect* yn cynnwys prynu tir neu adeiladau, rhaid i chi eu prynu yn rhydd-ddaliadol neu gyda phrydles gydag o leiaf 99 mlynedd ar ôl arni.

## Eitemau treftadaeth

Ar gyfer *Prosiect*au sy'n cynnwys prynu eitem dreftadaeth neu wneud gwaith cadwraeth i eitem Dreftadaeth, mae’n rhaid i chi brynu neu fod yn berchen ar yr eitem yn llwyr.

## Allbynnau Digidol

Mae gennym ofynion penodol, a nodir yn eich Telerau *Grant* Safonol, ar gyfer 'allbynnau digidol' a gynhyrchir fel rhan o unrhyw Brosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydyn ni'n defnyddio'r term 'allbwn digidol' i gwmpasu unrhyw beth rydych chi'n ei greu yn eich *Prosiect* mewn fformat digidol sydd wedi'i gynllunio i roi mynediad i dreftadaeth a / neu i helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys ffotograffau, testun, meddalwedd, cynnwys gwe ac ap, cronfeydd data, modelau 3D, recordiadau sain a fideo.

Nid yw eitemau a grëwyd wrth reoli'r *Prosiect*, er enghraifft e-byst rhwng aelodau'r tîm a chofnodion cyfarfodydd, wedi'u cynnwys yn y gofyniad. Nid yw'r gofynion yn berthnasol i allbynnau digidol nad oes ganddynt gynnwys treftadaeth neu nad ydynt yn ennyn diddordeb pobl â threftadaeth, ee gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth am eich sefydliad / *Prosiect* neu restrau digwyddiadau yn unig.

Mae’n rhaid i'r holl allbynnau digidol fod yn:

- 'ar gael' (hy mae'r allbynnau ar gael am ddim ar-lein; mae copïau o'r ffeiliau digidol yn cael eu dal yn ddiogel a gallwch roi mynediad i'r rhain ar alw) am ddeng mlynedd o ddyddiad cwblhau'r *Prosiect*
- 'defnyddiadwy' (mae'r allbynnau'n gweithredu yn ôl y bwriad ac yn cael eu diweddaru)
- 'agored' (mae allbynnau digidol wedi'u trwyddedu i'w defnyddio gan eraill o dan y Creative CommonsTrwydded Attribution 4.0 International (CC-BY 4.0), ac eithrio cod a metadata, y dylid eu rhyddhau o dan Ymroddiad Parth Cyhoeddus, oni bai ein bod wedi cytuno fel arall.

Mae mwy o wybodaeth am ein gofynion trwyddedu ar gyfer *Prosiect*au ar ein gwefan.

# Atodiad B: Tir mewn Perchnogaeth Trydydd Parti

## Ar gyfer *Prosiect*au Naturiol a Thirwedd

Pan fo'r tir sy'n destun eich *Grant* yn eiddo i drydydd parti neu drydydd partïon lluosog, dylid sefydlu cytundebau rhwng y *Grantî* a phob perchennog tir. Nid oes unrhyw ffurf ragnodedig o gytundeb, ond mae gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ofynion penodol y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gytundebau tirfeddianwyr trydydd parti. Dylai'r cytundebau tirfeddiannwr o leiaf gynnwys y canlynol:

1. Manylion y partïon;
2. Cadarnhad ynghylch sut mae'r tir yn cael ei ddal (rhydd-ddaliad neu brydles);
3. Disgrifiad o'r Eiddo (gan gynnwys cynlluniau);
4. Cyfamodau ar ran perchennog y tir i gynnal a chadw'r tir a darparu mynediad cyhoeddus yn unol â thelerau'r *Grant* (fel sy'n berthnasol); a
5. Darpariaeth y dylai unrhyw warediad ymlaen fod yn ddarostyngedig i'r cytundeb trydydd parti;
6. Y bydd y cytundeb yn para am 10 mlynedd yn dilyn Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*.

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'r cytundebau tirfeddiannwr i ni er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion hyn. Bydd angen cwblhau'r cytundebau perchnogion tir ac yn eu lle cyn i unrhyw arian *Grant* gael ei ryddhau ar gyfer gwaith ar bob llain o dir sy'n eiddo i drydydd parti.

## Ar gyfer gwaith cyfalaf i dreftadaeth adeiledig - ee adeiladau, gerddi addurnol

Os yw'ch *Prosiect* yn cynnwys gwaith sylweddol i adeilad treftadaeth sy'n eiddo i drydydd parti, byddwn fel arfer yn disgwyl i'r perchennog ddod yn *Grant*î ar y cyd neu i roi prydles i chi sy'n cwrdd â'n gofynion (fel y nodir uchod). Mewn rhai sefyllfaoedd, yn hytrach nag ymuno â'r perchennog, gallwn ofyn iddynt lofnodi llythyr ochr y byddwn yn ei baratoi.

## *Grant*iau Cymunedol

Efallai yr hoffech chi wneud taliadau *Grant*iau Cymunedol i berchnogion trydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat) am weithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at gyflawni Canlyniadau'r *Prosiect*. Os mai chi yw'r prif ymgeisydd, rydych chi'n gyfrifol am sicrhau bod y Canlyniadau *Prosiect* penodol yn cael eu cyflawni gan dirfeddianwyr trydydd parti (y *Grant*ïon Cymunedol) a bod rhywun yn cydymffurfio â'r Contract *Grant*, gan gynnwys ad-dalu'r *Grant* os oes angen.

Dylid ffurfioli hyn trwy gytundebau trydydd parti sy'n diffinio'r Canlyniadau i'w cyflwyno ar dir trydydd parti ac yn sicrhau rheolaeth a chynnal a chadw gwaith cyfalaf o'r dyddiad disgwyliedig ar gyfer cwblhau'r gwaith, tan 10 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*. Dylai hwn fod yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'r *Grant*î Cymunedol.

## Costau Cyfreithiol

Gallwch gynnwys costau addasu a sefydlu unrhyw gytundebau trydydd parti, gan gynnwys cost cymryd cyngor cyfreithiol, fel rhan o'r costau yn eich Cais.

# Atodiad C: Rhestr Termau

**'ni', 'ein'** - Ymddiriedolwyr y Gronfa Goffa’r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Rhwydweithiau Natur).

**'chi', 'eich'** - y sefydliad(au) neu'r unigolyn / unigolion a ddyfarnwyd y *Grant* fel y nodir yn y Llythyr Hysbysiad *Grant* ac unrhyw sefydliad sy'n cytuno i fod yn gyd-*Grant*î ac i gydymffurfio â'r Contract *Grant*.

**Amodau *Grant* Ychwanegol** - unrhyw amodau *Grant* ychwanegol a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad *Grant*.

**Cais** - eich ffurflen Gais wedi'i chwblhau ac unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a anfonwch atom i gefnogi'ch cais am *Grant*.

***Dibenion Cymeradwy* -** mae'r *Dibenion Cymeradwy* yn crynhoi'r *Prosiect* a ddisgrifir yn eich Cais.

**Defnydd Cymeradwy** - sut y dywedasoch y byddech yn defnyddio'r Eiddo yn eich Cais (gan ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau y gallem fod wedi cytuno hyd at ryddhau unrhyw un o'r *Grant*).

**Allbynnau Digidol** - yr holl ddeunydd â chynnwys treftadaeth wedi'i greu mewn fformat digidol neu wedi'i gopïo ganddo neu ar eich cyfer chi mewn cysylltiad â'r *Prosiect*.

***Grant*** - y swm a nodir yn y Llythyr Hysbysiad *Grant*.

**Contract *Grant*** - yn cynnwys y

- *Llythyr Hysbysiad Grant;*
- *Telerau Grant Safonol;*
- Unrhyw *Amodau Grant Ychwanegol*; a
- *Ffurflen Caniatâd i Ddechrau* wedi’i llofnodi.

**Dyddiad Dod i Ben *Grant*iau** - y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i chi gyflawni'r *Dibenion Cymeradwy* fel y'u nodir yn y Llythyr Hysbysiad *Grant* ac erbyn pryd y byddwch yn tynnu'r *Grant* i lawr yn derfynol.

**Llythyr Hysbysiad *Grant*** - y llythyr yn cadarnhau ein *Grant* i chi.

**Canran y *Grant*** - *Grant* wedi'i rannu â chyfanswm costau'r *Prosiect* - gweler enghraifft B.

**Canllawiau eraill** - yr holl ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r *Prosiect* ar ein gwefan gan gynnwys:

- Cynllun gweithgaredd neu gynllun gweithredu ardal
- Canllawiau Cynllun Cadwraeth
- Canllawiau Gwerthuso
- Canllawiau Arferion Da
- Canllawiau Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw
- Canllawiau Caffael

- Deall eich Treftadaeth

**Trwydded Agored**- mae trwydded agored yn rhoi caniatâd i gael mynediad at, ailddefnyddio ac ailddosbarthu gwaith heb fawr o gyfyngiadau, os o gwbl. Mae amryw o drwyddedau agored ar gael ond y drwydded agored ddiofyn sy'n ofynnol yw'r drwydded Attribution Creative Commons 4.0 Rhyngwladol (CC BY 4.0) neu gyfwerth.

**Canlyniadau** - rydyn ni'n disgrifio'r gwahaniaeth rydyn ni am ei wneud gyda'n cyllid trwy set o naw Canlyniad. Y canlyniadau yw newidiadau, effeithiau neu fuddion sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r *Prosiect*. Bydd pob un o'r *Prosiect*au a ariannwn yn cyflawni un neu fwy o'r Canlyniadau hyn.

**Ffurflen *Caniatâd i Ddechrau*** - y ffurflen rydych chi'n ei chyflwyno i ni yn gofyn am ganiatâd i ddechrau'r *Prosiect*.

***Caniatâd i Ddechrau*** - ein cadarnhad ysgrifenedig y gallwch ddechrau'r *Prosiect*.

**Dogfennau Cais y Rhaglen** - y canlynol dogfennau canllaw i'w cael ar ein gwefan, nodi cwmpas y rhaglen a sut i wneud cais.

- Tudalen we Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cais Cronfa Rhwydweithiau Natur a nodiadau cymorth Mynegiant o Ddiddordeb

***Prosiect*** - y dibenion yr ydym wedi'u cymeradwyo fel y'u nodir yn y Cais (gan ystyried unrhyw newidiadau a chytunwyd arnynt yn ysgrifenedig hyd at ddyddiad ein penderfyniad i ddyfarnu'r *Grant* i chi ac unrhyw newidiadau yr ydym yn dweud wrthych amdanynt yn y Llythyr Hysbysiad *Grant*). Weithiau disgrifir y dibenion hyn fel *Dibenion Cymeradwy* ac maent yn cynnwys eich bod yn cael ac yn defnyddio cyllid partneriaeth fel y nodir yn y Cais a sut y dywedasoch y byddech yn defnyddio'r Eiddo (os o gwbl).

**Dyddiad Cwblhau'r *Prosiect*** - dyddiad y llythyr a anfonwn atoch yn rhoi gwybod ichi fod y *Prosiect* wedi'i gofnodi fel un cyflawn.

**Eiddo** - unrhyw eiddo rydych chi'n ei brynu, ei greu, ei dderbyn neu ei adfer, neu eiddo sydd fel arall yn cael ei ariannu gan y *Grant* gan gynnwys Allbynnau Digidol, hawliau eiddo deallusol ac unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu cynhyrchu neu'n eu harchebu fel rhan o'r *Prosiect*.

**Derbyn *Grant*** - y canllawiau a gyhoeddwn i egluro sut y byddwn yn talu'r *Grant*, yn monitro'r *Prosiect* ac yn cytuno ar newidiadau i'r *Grant*.

**Telerau Safonol y *Grant*** - y termau safonol a nodir yma.

**Tymor y Contract *Grant*** - hyd y Contract *Grant* a nodir yn y Llythyr Hysbysiad *Grant*.

**Trydydd parti** - unrhyw berchennog Eiddo Trydydd Parti.

**Eiddo Trydydd Parti** - unrhyw eiddo a nodwyd yn y Cais sy'n perthyn i Drydydd Parti neu'n cael ei reoli ganddo.

**Gofynion Perchnogaeth Trydydd Parti** - y gofynion a nodir yn y Canllawiau Cais am Raglen a Derbyn *Grant* sy'n ymwneud â'r trefniadau cytundebol yr ydym yn disgwyl ichi ymrwymo gyda Thrydydd Parti.